Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Canllaw i Wasanaethau Crwneriaid ar gyfer Pobl mewn Profedigaeth

Amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Designed by design102

Cyflwyniad

Pam ydw i wedi cael y Canllaw hwn?

Rhoddwyd y Canllaw hwn i chi oherwydd bod rhywun agos atoch chi wedi marw a bod y crwner wedi cael ei hysbysu am y farwolaeth.

Mae'n bosibl eich bod wedi cael y canllaw hwn hefyd os ydych chi wedi cael eich galw fel tyst mewn cwest.

Mae'r crwner ynghlwm yn y farwolaeth oherwydd bod angen iddo wneud ymholiadau i ganfod beth ddigwyddodd a sut bu farw'r person.

I'r rhan fwyaf o bobl, mae proses cwest yn newydd. Mae paratoi ar gyfer cwest yn gallu bod yn anodd, ac efallai y byddwch chi'n cael trafferth deall y prosesau cyfreithiol, ar ben y trallod a achoswyd gan y farwolaeth.

Nid bwriad y Canllaw hwn yw bod yn ddatganiad o'r gyfraith ac nid yw'n cwmpasu pob sefyllfa a allai godi. Mae rhai amgylchiadau lle gallai'r prosesau fod yn wahanol ac ymdrinnir â'r rhain yn adran 7 o'r Canllaw.

Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yw'r brif Ddeddf Seneddol sy'n darparu

ar gyfer y gwasanaeth crwneriaid. Yn y Canllaw hwn, rydym yn cyfeirio ati fel 'y Ddeddf'.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar unrhyw adeg, gallwch gysylltu bob amser â staff yn swyddfa'r crwner, a fydd yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau cyffredinol ynghylch y llyfryn hwn, mae croeso i chi anfon e-bost i coroners@justice.gov.uk

Contents

Adran 1

Pwy sy'n gysylltiedig â phroses y crwner a beth yw fy rôl i? 1

1.1 Beth yw crwner? 2
1.2 Beth yw gwaith y crwner? 2
1.3 Beth yw ymchwiliad crwner? 3
1.4 Beth yw swyddog y crwner? 3
1.5 Beth yw 'person â buddiant'? 4
1.6 Beth ydw i'n gallu ei ddisgwyl gan swyddfa'r crwner yn ystod yr ymchwiliad? 4
1.7 Beth yw fy rôl i a pha hawliau sydd gen i fel person â buddiant? 5

Adran 2

Cychwyn yr ymchwiliad - beth fydd y crwner yn ei wneud? 7

2.1 Pwy sy'n hysbysu'r crwner am y farwolaeth? 8
2.2 Beth fydd crwner yn ei wneud pan gaiff ei hysbysu am farwolaeth? 8
2.3 Tra bo'r crwner yn ymchwilio, a fydda i'n cael gweld y corff? 9
2.4 Pryd bydda i'n cael y corff yn ôl er mwyn trefnu'r angladd? 10
2.5 Pryd gellir cofrestru'r farwolaeth? 10

Adran 3

Mae'r crwner wedi gofyn am bost-mortem – beth fydd yn digwydd? 11

3.1 Pam bod post-mortem yn cael ei gynnal? 12
3.2 Beth fydd yn digwydd yn y post-mortem – a fydd archwiliad mewnol yn cael ei gynnal? 12
3.3 A oes dewisiadau heblaw archwiliad mewnol? 12
3.4 Pryd bydd rhaid cael mwy nag un post-mortem? 13
3.5 Ydw i'n gallu atal post-mortem rhag cael ei gynnal? 13
3.6 Ydw i'n gallu mynd i'r post-mortem? 13
3.7 A fydda i'n cael y corff ar ôl y post-mortem? 13
3.8 A fydd unrhyw organau'n cael eu cadw ar ôl y post-mortem? 14
3.9 Beth sy'n digwydd ar ôl i'r post-mortem gael ei gwblhau? 14
3.10 Beth os nad ydw i'n cytuno â'r adroddiad? 15
3.11 Beth fydd y crwner yn ei wneud gyda'r adroddiad? 15

Adran 4

Cyngor cyfreithiol – mae cwest yn mynd i gael ei gynnal - a fydd angen cyfreithiwr arna i? 16

4.1 A oes angen cyfreithiwr arna i? 16
4.2 Ble galla i ddod o hyd i gyfreithiwr? 17
4.3 A oes Cymorth Cyfreithiol ar gael ar gyfer fynghostau cyfreithiol? 17
4.4 A oes Cymorth Cyfreithiol ar gael os yw'r wladwriaeth neu gorff cyhoeddus yn berson â buddiant yn y cwest? 17
4.5 A fydda i'n cael Cymorth Cyfreithiol os oes llawer o ddiddordeb yn y cwest? 18

Adran 5

Mae cwest yn mynd i gael ei gynnal - beth fydd yn digwydd nesaf? 19

5.1 Beth yw cwest? 20
5.2 Pryd bydd y cwest yn cael ei gynnal? 20
5.3 Pa mor hir fydd gwrandawiad y cwest yn para? 20
5.4 Beth fydd yn digwydd gyntaf? 21
5.5 Beth yw adolygiad cyn cwest? 21
5.6 Ydw i'n gallu cael copïau o ddogfennau? 22
5.7 A oes rhaid i mi fod yn bresennol yn y cwest? 23
5.8 Ydw i'n gallu dod â rhywun gyda fi i'm cefnogi? 24
5.9 A fydd ardal aros breifat ar gael? 24
5.10 Pwy arall fydd yn y cwest? 24
5.11 Pwy sy'n penderfynu pa dystion i'w galw i roi tystiolaeth? 25
5.12 Gofynnwyd i mi roi tystiolaeth, sut bydd hynny'n digwydd? 25
5.13 Ydw i'n gallu gofyn cwestiynau i'r tystion? 26
5.14 A fydd unrhyw beth preifat neu bersonol yn cael ei ddweud am y person sydd wedi marw? 26
5.15 Pryd bydd rheithgor yn cael ei ddefnyddio? 27
5.16 Beth yw gwaith y rheithgor? 27

Adran 6

Ar ddiwedd y cwest 28

6.1 Beth sy'n digwydd ar ôl i'r holl dystion roi tystiolaeth? 28
6.2 Pryd bydd y crwner yn gwneud y penderfyniad o ran beth ddigwyddodd? 29
6.3 Pa gasgliadau y gellid eu gwneud? 29
6.4 Beth os gellid atal marwolaethau yn y dyfodol? 30

Adran 7

Amgylchiadau lle gall proses y cwest fod yn wahanol 31

7.1 Bu farw fy mherthynas yn nalfa'r heddlu neu yn y carchar – a fydd pethau'n cael eu gwneud yn wahanol? 31

7.2 Beth sy'n digwydd pan fydd ymchwiliad troseddol i farwolaeth? 32

7.3 Pam bod yr ymchwiliad (neu gwest) wedi cael ei ohirio? 32

Adran 8

Herio penderfyniad crwner a chwyno 33

8.1 Beth ddylwn i ei wneud os bydd gen i gŵyn? 33

8.2 Ydw i'n gallu herio penderfyniad crwner neu ganlyniad cwest? 33

8.3 Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i gŵyn am ymddygiad personol crwner? 34

8.4 Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i gŵyn am safon y gwasanaeth a dderbyniwyd? 35

Adran 9

Cael rhagor o wybodaeth a chymorth 36

Rhagor o wybodaeth gyffredinol am ymchwiliadau'r crwner 36

Cymorth profedigaeth 36

Mudiadau eraill all roi cymorth a chyngor 37

Atodiad A

Protocol: Egwyddorion sy'n llywio dull y Llywodraeth o weithredu pan fydd ganddi statws person â buddiant mewn cwest. ii

Adran 1

Pwy sy'n gysylltiedig â phroses y crwner a beth yw fy rôl i?

Y Prif Bwyntiau

Mae crwner yn farnwr arbennig sy'n ymchwilio i farwolaethau annaturiol neu dreisgar, lle mae achos y marwolaethau yn anhysbys, neu oherwydd bod y marwolaethau wedi digwydd yn y carchar, yn nalfa'r heddlu neu mewn math arall o ddalfa'r wladwriaeth, fel ysbyty iechyd meddwl.

Gall yr ymchwiliad gynnwys gwrandawiad cwest.

Rôl y crwner yw darganfod pwy fu farw a sut, pryd a ble y bu farw.

Ni all y crwner ddod i'r casgliad bod rhywun yn euog o rywbeth neu ar fai am rywbeth.

Fel perthynas neu gynrychiolydd ar ran y person a fu farw, mae gennych chi'r hawl i gael dogfennau a thystiolaeth ac i ofyn cwestiynau perthnasol i'r tystion yng ngwrandawiad y cwest.

Bydd eich prif gyswllt â'r crwner drwy swyddog y crwner a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hynt yr achos.

1.1 Beth yw crwner?

Mae crwner yn fath arbennig o farnwr a benodwyd gan awdurdod lleol i ymchwilio i rai marwolaethau. Cyfreithwyr yw crwneriaid fel arfer, ond gallant fod yn feddygon weithiau. Mae crwneriaid yn gweithio yn unol â fframwaith cyfreithiol sydd wedi'i basio gan y Senedd. Cânt eu penodi gan awdurdod lleol ond maent yn dal swyddi barnwrol annibynnol o hyd.

Pennaeth y gwasanaeth crwneriaid yw'r Prif Grwner.

1.2 Beth yw gwaith y crwner?

Mae crwneriaid yn ymchwilio i farwolaethau a adroddwyd iddynt os credant fod:

- y farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol;
- achos y farwolaeth yn anhysbys; neu
- y person wedi marw yn y carchar, yn nalfa'r heddlu neu mewn math arall o ddalfa'r wladwriaeth e.e. canolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr neu tra oedd wedi'i gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Pan fydd crwner yn cael ei hysbysu am farwolaeth, bydd:

- yn penderfynu a oes angen ymchwiliad; ac os felly,
- yn ymchwilio i ganfod pwy yw'r person sydd wedi marw; sut, pryd a ble y bu farw; ac unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno i gofrestru'r farwolaeth; ac
- yn defnyddio'r wybodaeth a gaiff ei darganfod yn ystod yr ymchwiliad i helpu i atal marwolaethau eraill.

1.3 Beth yw ymchwiliad crwner?

Mae ymchwiliad crwner yn wahanol i ymchwiliad troseddol. Os bydd crwner yn ymchwilio, nid yw'n golygu bod amheuaeth o weithred droseddol neu o unrhyw gamwedd.

Pwrpas ymchwiliad y crwner yw darganfod pwy sydd wedi marw a sut, pryd a ble y bu farw. Er mwyn darganfod hyn, mae'n bosibl y bydd y crwner yn penderfynu cynnal cwest, sef ymchwiliad canfod ffeithiau yn y llys. Weithiau bydd cwest yn cael ei gynnal gyda rheithgor. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y gallai hyn ddigwydd ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw.

Gall canfyddiadau'r crwner fod yn feirniadol o'r hyn a ddigwyddodd ond ni all y crwner feio unigolion neu sefydliadau na'u cael yn gyfrifol am y farwolaeth. Y llysoedd troseddol neu sifil fydd yn gwneud hynny.

Gall y crwner hefyd ysgrifennu adroddiad i helpu i atal marwolaethau yn y dyfodol. Bydd yn anfon yr adroddiad hwn at y sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r farwolaeth er mwyn iddynt gymryd camau gweithredu.

1.4 Beth yw swyddog y crwner?

Mae swyddogion y crwner yn aelodau o staff sy'n gweithio ar ran crwneriaid ac yn darparu cyswllt rhwng y crwner a chi fel person mewn profedigaeth (neu'r tyst). Yn aml, cyfeirir at y bobl hyn fel 'swyddfa'r crwner'.

Mae swyddogion y crwner yn gweithio i gael gwybodaeth gan deuluoedd mewn profedigaeth, yr heddlu, meddygon, staff marwdai, staff profedigaeth mewn ysbytai a chyfarwyddwyr angladdau. Byddant hefyd yn cael gwybodaeth a dogfennau gan y rheini a allai fod yn gysylltiedig â'r farwolaeth, fel tystion,

neu'r rheini y bydd crwner yn penderfynu eu bod yn 'bersonau â buddiant' yn yr ymchwiliad.

Fel rheol, bydd swyddogion y crwner yn staff heddlu sifil neu'n weithwyr yn yr awdurdod lleol, ond weithiau byddant yn swyddogion heddlu ar wasanaeth.

Bydd y rhan fwyaf o'r cysylltiad rhyngoch chi a swyddfa'r crwner yn digwydd drwy swyddog y crwner. Hyd yn oed os yw'r crwner wrthi'n ystyried mater a godwyd gennych chi, mae'n debygol y byddwch yn dal i fod yn cyfathrebu drwy swyddfa'r crwner gan mai barnwr yw'r crwner.

1.5 Beth yw 'person â buddiant'?

Caiff 'person â buddiant' ei ddiffinio mewn cyfraith (yn adran 47(2) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009). Os ydych chi'n berthynas agos neu'n gynrychiolydd personol ar ran y person sydd wedi marw, ystyrir eich bod yn 'berson â buddiant'.

Mae gan berson â buddiant rai hawliau yn ystod yr ymchwiliad a'r cwest. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael gwybod am ddyddiadau gwrandawiadau ac i gael dogfennau gan y crwner y gellir eu defnyddio yn y cwest.

Mae'r diffiniad o berson â buddiant hefyd yn cynnwys person sy'n gysylltiedig â'r farwolaeth, person a benodir gan un o adrannau'r Llywodraeth i fynychu'r cwest neu i ddarparu tystiolaeth, ac unrhyw un arall sydd â buddiant digonol, ym marn y crwner.

Gall pobl a sefydliadau eraill fod yn bersonau â buddiant hefyd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys rhestr lawn o'r rheini sydd wedi cael eu diffinio fel 'person â buddiant' neu gallwch ofyn i swyddogion y crwner.

1.6 Beth ydw i'n gallu ei ddisgwyl gan swyddfa'r crwner yn ystod yr ymchwiliad?

Bydd y tîm yn swyddfa'r crwner yn:

- esbonio rôl y crwner ac yn ateb eich cwestiynau
- darparu cyswllt yn swyddfa'r crwner drwy gydol yr ymchwiliad, gan gynnwys rhif ffôn a/neu gyfeiriad e-bost;
- dweud wrthych chi am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau;
- rhoi gwybod i chi pryd a ble y cynhelir gwrandawiadau;
- rhoi dogfennau a thystiolaeth i chi a roddwyd i'r crwner gan bersonau eraill â buddiant (i'r graddau y bo hynny'n bosibl);
- os oes modd, ystyried eich barn, gan gynnwys eich dewisiadau, eich traddodiadau a'ch anghenion seiliedig ar ffydd yng nghyswllt galaru, post-mortem ac angladdau;
- gwneud addasiadau rhesymol i ddiwallu eich anghenion os oes gennych chi anabledd;

- cysylltu â chi, yn ystod ymchwiliad hir, o leiaf bob tri mis, neu'n gynt os oes rhagor o wybodaeth ar gael, i roi'r diweddaraf i chi am hynt eich achos, ac egluro'r rhesymau dros unrhyw oedi; ac
- esbonio pam nad yw'r crwner yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach yn eich achos, os yw'n berthnasol.

Ni all swyddfa'r crwner na'r crwner ei hun roi cyngor cyfreithiol i chi.

1.7 Beth yw fy rôl i a pha hawliau sydd gen i fel person â buddiant?

Fel person â buddiant bydd gennych chi rai hawliau yn ystod ymchwiliad y crwner, yn cynnwys y canlynol:

- os dymunwch, edrych ar gorff y person a fu farw a chael gwybod manylion unrhyw bost-mortem y gellid ei gynnal;
- cael gwybodaeth a dogfennau a thystiolaeth arall fel datganiadau tystion ac adroddiadau arbenigol a roddwyd i'r crwner y gellid eu defnyddio yng ngwrandawiad y cwest. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth y gall partïon â buddiant fod wedi'i rhoi i'r crwner. (Gelwir hyn yn 'ddatgeliad');
- cael gwybod dyddiad unrhyw wrandawiadau a'r hawl i fynychu'r cwest, ac unrhyw wrandawiadau cyn y cwest; ;
- os bydd y crwner yn gofyn, rhoi datganiad tyst a thystiolaeth os oes gwrandawiad cwest;
- gofyn cwestiynau perthnasol i dystion eraill yng ngwrandawiad y cwest, os dymunwch chi; a
- dod â rhywun gyda chi i'ch cefnogi yng ngwrandawiad y cwest.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw hwn am ba gefnogaeth emosiynol a chyfreithiol y gallech fod yn awyddus i'w hystyried, yn ogystal â'r gefnogaeth gan eich ffrindiau, eich teulu neu'r gymuned.

Mae swyddfa'r crwner yno i'ch helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi a dylech roi gwybod i'r swyddogion os oes gennych chi unrhyw bryderon neu gwestiynau am y farwolaeth, yr ymchwiliad neu'r cwest. Gallwch helpu drwy wneud y canlynol:

- cydweithredu â swyddfa'r crwner a rhoi unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad a'r cwest, yn eich barn chi, yn brydlon;
- lle bo'n bosibl, enwi un unigolyn fel y 'berthynas agosaf' i gyfathrebu â swyddfa'r crwner. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon. (Os oes angen i fwy nag un person fod yn gyswllt ar gyfer y crwner - er enghraifft mewn teuluoedd rhanedig – eglurwch hyn i swyddog y crwner a rhowch fanylion cyswllt);
- dweud wrth swyddfa'r crwner os bydd rhywbeth yn newid e.e. os byddwch chi'n symud tŷ neu'n newid eich rhif ffôn neu'ch cyfeiriad e-bost, er mwyn i'w swyddogion allu cysylltu â chi'n ddi-oed; a
- dweud wrth swyddfa'r crwner cyn gynted ag y bo modd os oes gennych chi unrhyw anghenion penodol, gan gynnwys anghenion crefyddol, ar gyfer y cwest, e.e. os oes gennych chi anabledd, neu os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, fel bod y crwner yn gallu cymryd camau rhesymol i ddiwallu eich anghenion.

Mae'r safonau gwasanaeth penodol y gallwch eu disgwyl ar adegau penodol o ymchwiliad crwner wedi'u nodi mewn bocsys 'Safonau y gallwch eu disgwyl' drwy'r ddogfen hon.

Adran 2

Cychwyn yr ymchwiliad - beth fydd y crwner yn ei wneud?

Y Prif Bwyntiau

Gall gwahanol bobl hysbysu'r crwner am farwolaeth, e.e. yr heddlu, swyddogion carchar, cofrestrwyr genedigaethau a marwolaethau, meddygon neu'r ysbyty.

Pan hysbysir crwner am farwolaeth, bydd yn cynnal ymholiadau cychwynnol i weld a yw'n gallu darganfod achos y farwolaeth yn gyflym. Os yw hyn yn bosibl, a bod y farwolaeth o ganlyniad i achosion naturiol, yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes gan y crwner rôl bellach.

Os yw achos y farwolaeth yn dal yn anhysbys neu'n ymddangos yn annaturiol neu'n dreisgar, bydd y crwner yn ymchwilio i ddarganfod beth oedd achos y farwolaeth. Gall hyn gynnwys post-mortem.

Os yw achos y farwolaeth yn anhysbys neu os oedd y farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol, mae angen i'r crwner gynnal cwest. Weithiau, efallai y bydd angen i'r crwner gynnal cwest hyd yn oed os oedd y farwolaeth yn naturiol a'r rheswm yn hysbys. Bydd hyn yn digwydd pan fydd y person wedi marw yn nalfa'r wladwriaeth, er enghraifft, yn y carchar.

Fel rheol, byd y crwner yn gadael i chi gael y corff ar gyfer claddu neu amlosgi ar ôl iddo wneud ei ymholiadau cyntaf. Gallwch wneud trefniadau ar gyfer angladd ar ôl i hyn ddigwydd.

Ni allwch gofrestru'r farwolaeth (gofyniad cyfreithiol i ddweud wrth y llywodraeth bod rhywun wedi marw) hyd nes bod achos y farwolaeth yn hysbys. Fodd bynnag, gall y crwner roi 'tystysgrif ffaith marwolaeth' i chi i'ch helpu i ddelio â materion gweinyddol. Gelwir hyn yn dystysgrif marwolaeth interim weithiau hefyd.

2.1 Pwy sy'n hysbysu'r crwner am y farwolaeth?

Gallwch chi, neu unrhyw un arall, hysbysu'r crwner am farwolaeth os oes gennych chi bryderon amdani.

Bydd meddygon (gan gynnwys archwilwyr meddygol), yr heddlu a chofrestrwyr genedigaethau a marwolaethau yn hysbysu crwner am farwolaethau mewn rhai amgylchiadau, yn cynnwys pan fydd achos y farwolaeth yn anhysbys, pan oedd y farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol, pan na all unrhyw feddyg lenwi tystysgrif marwolaeth neu pan fo pryderon ynghylch achos y farwolaeth.

Mewn rhai achosion, gall yr heddlu hefyd ymchwilio i'r farwolaeth, ar wahân i'r crwner, oherwydd eu dyletswyddau a'u pwerau cyffredinol. Os bydd hyn yn digwydd bydd yr heddlu'n rhannu gwybodaeth gyda'r crwner er mwyn osgoi dyblygu.

Weithiau, bydd yn rhaid i sefydliadau eraill fel ymddiriedolaeth ysbyty, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth neu'r Swyddfa Annibynnol dros Ymddygiad yr Heddlu, gynnal eu hymchwiliad eu hunain i'r farwolaeth. Daw'r ymchwiliadau hyn i ben fel arfer cyn cwest y crwner.

Bydd y crwner yn cael canlyniadau'r ymchwiliadau hyn er mwyn iddo allu defnyddio'r wybodaeth yn y cwest (mae rhagor o wybodaeth am broses cwest ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw hwn). Weithiau gall yr ymchwiliadau hyn gymryd cryn amser i'w cwblhau.

2.2 Beth fydd crwner yn ei wneud pan gaiff ei hysbysu am farwolaeth?

Bydd staff y crwner yn gwneud ymholiadau i helpu'r crwner i benderfynu a ddylid ymchwilio i'r farwolaeth ai peidio, er enghraifft drwy siarad â meddyg y person a fu farw. Os bydd hyn yn cadarnhau bod y farwolaeth o ganlyniad i salwch neu gyflwr naturiol ac nad oes unrhyw amgylchiadau anarferol, ni fydd angen i'r crwner ymchwilio.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd trafodaethau cynnar yn golygu y gall y meddyg lofnodi Tystysgrif Feddygol am Achos y Farwolaeth. Bydd yn dweud wrth y cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau am y penderfyniad.

Wedyn, bydd staff y crwner yn dweud wrthych chi hefyd y gallwch chi gofrestru'r farwolaeth. Mewn sefyllfaoedd eraill, bydd y crwner yn rhoi ffurflen i'r cofrestrydd yn dweud bod y farwolaeth wedi digwydd o ganlyniad i achosion naturiol a bod modd iddo gofrestru'r farwolaeth.

Efallai y bydd y crwner yn penderfynu bod angen ymchwiliad os nad yw'n credu bod y farwolaeth wedi digwydd o ganlyniad i achosion naturiol, neu fod y farwolaeth yn un naturiol ond ni ellir pennu'r union achos. Bydd yn gofyn i feddyg arbenigol (patholegydd fel arfer) gynnal post-mortem er mwyn helpu i ganfod achos y farwolaeth. Mae rhagor o fanylion am y post-mortem ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw hwn.

Os bydd y post-mortem yn cadarnhau marwolaeth o achos naturiol, os nad oes unrhyw bryderon eraill ynghylch y farwolaeth ac ni fu farw'r person yn y ddalfa nac mewn unrhyw fath o ddalfa'r wladwriaeth, ni fydd angen i'r crwner ymchwilio ymhellach.

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth neu bryderon am sut digwyddodd y farwolaeth, dylech ddweud wrth swyddfa'r crwner cyn gynted ag y bo modd. Gall yr wybodaeth hon fod yn bwysig ar gyfer y profion a'r ymchwiliad meddygol a gynhelir.

2.3 Tra bo'r crwner yn ymchwilio, a fydda i'n cael gweld y corff?

Weithiau, bydd gofyn i chi neu eich cynrychiolydd adnabod y corff yn ffurfiol. Fel arfer, gallwch weld y corff hefyd os dymunwch chi. Mae'r llefydd lle gallwch chi weld y corff yn gallu amrywio, felly weithiau byddwch yn gweld y person drwy ffenestr wydr yn hytrach na bod yn yr un ystafell ag ef. Dylech ofyn i swyddfa'r crwner ymlaen llaw os ydych chi am gyffwrdd corff eich anwylyd gan nad yw hyn bob amser yn bosibl, er enghraifft, lle bo angen casglu tystiolaeth i'w defnyddio mewn achos troseddol.

Weithiau, bydd y crwner yn awgrymu nad ydych chi'n gweld y corff os yw'n teimlo y gallai hyn achosi trallod i chi. Bydd hyn yn cael ei egluro i chi mewn modd sensitif er mwyn i chi allu penderfynu a ydych chi am weld y corff o hyd.

2.4 Pryd bydda i'n cael y corff yn ôl er mwyn trefnu'r angladd?

O dan y gyfraith, mae gan y crwner reolaeth gyfreithiol dros dro dros y corff tra bo'n cynnal ei ymchwiliad. Mae'r rheolaeth gyfreithiol hon yn bwysig gan ei bod yn golygu na all yr un person neu sefydliad arall ymyrryd ag ymchwiliad annibynnol y crwner.

Fodd bynnag, bydd yn caniatáu i chi (os mai chi yw'r perthynas agosaf) gael y corff i'w gladdu neu ei amlosgi cyn gynted â phosibl.

Os na all y crwner adael i chi gael y corff o fewn 28 diwrnod, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybod i chi (os mai chi yw'r perthynas agosaf) neu gynrychiolydd personol y person a fu farw, beth yw'r rhesymau dros yr oedi.

Bydd swyddog y crwner yn rhoi gwybod i chi pryd gellir dychwelyd corff eich anwylyd atoch.

Gall y gweithdrefnau amrywio pan fo ymchwiliad troseddol i'r farwolaeth. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw.

2.5 Pryd gellir cofrestru'r farwolaeth?

Mae'n ofyniad cyfreithiol dweud wrth y llywodraeth bod person wedi marw.

Fodd bynnag, os bydd y crwner yn penderfynu ymchwilio i'r farwolaeth, ni ellir cofrestru'r farwolaeth ar unwaith. Mae'n rhaid i'r cofrestrydd genedigaethau

a marwolaethau aros i'r crwner gwblhau ei ymchwiliad cyn y gellir cofrestru'r farwolaeth.

Dywedir wrthych chi pryd a sut bydd y farwolaeth yn cael ei chofrestru neu pryd a sut gellir cofrestru'r farwolaeth unwaith y bydd y crwner unai wedi terfynu ei ymchwiliad neu wedi cwblhau ei ymchwiliad a'i gwest.

Adran 3

Mae'r crwner wedi gofyn am bost-mortem – beth fydd yn digwydd?

Y Prif Bwyntiau

Archwiliad meddygol o gorff ar ôl marwolaeth yw post-mortem, er mwyn darganfod achos y farwolaeth.

Fel arfer, mae'r post-mortem yn golygu gweithio ar y corff i gynnal archwiliad mewnol. Weithiau, gellir sganio'r corff yn lle hynny.

Ni allwch fynd i'r post-mortem eich hun, ond gallwch ofyn i feddyg fynychu ar eich rhan – er gall y meddyg godi tâl arnoch am hyn.

Bydd y meddyg arbenigol sy'n cynnal y post-mortem yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y crwner. Gallwch ofyn i swyddfa'r crwner am gopi.

Weithiau bydd samplau o waed neu feinwe'r corff yn cynnwys organau yn cael eu cadw ar ôl i'r corff gael ei ryddhau os bydd angen profion ac ymchwiliadau pellach i bennu achos y farwolaeth. Chi fydd yn penderfynu beth sy'n digwydd i'r feinwe sydd wedi cael ei chymryd.

3.1 Pam bod post-mortem yn cael ei gynnal?

Efallai y bydd y crwner yn penderfynu bod angen gofyn am bost-mortem i helpu i ddarganfod achos y farwolaeth, er enghraifft lle na all meddyg ardystio'r farwolaeth. Fel arfer caiff post-mortem ei gynnal gan batholegydd sy'n feddyg sy'n arbenigo mewn archwilio organau, meinweoedd a hylifau'r corff i wneud diagnosis meddygol.

Os yw'r farwolaeth yn gysylltiedig â throsedd bosibl, bydd y post-mortem yn un fforensig a bydd patholegydd fforensig sy'n arbenigo mewn materion troseddol yn ei gynnal.

Cynhelir y post-mortem cyn gynted ag y bo modd ar ôl y farwolaeth. Bydd swyddfa'r crwner yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw oedi.

3.2 Beth fydd yn digwydd yn y post-mortem – a fydd archwiliad mewnol yn cael ei gynnal?

Bydd y crwner yn penderfynu pa fath o bost-mortem ddylai gael ei gynnal.

Fel arfer bydd post-mortem yn golygu agor ac archwilio'r corff yn fewnol.

Os byddwch chi'n gweld y corff ar ôl y post-mortem, gall fod marciau arno yn sgil y post-mortem.

3.3 A oes dewisiadau heblaw archwiliad mewnol?

Mewn rhai rhannau o'r wlad mae technegau post-mortem eraill ar gael fel sganio gan ddefnyddio offer CT (tomograffeg gyfrifiadurol) neu MRI (delweddu atseiniol magnetig) nad ydynt yn niweidio'r corff. Nid yw'r rhain ar gael ym mhob man, a hyd yn oed lle maent ar gael, efallai na fydd yn bosibl eu defnyddio ym mhob achos. Os byddai'n well gennych chi ddefnyddio offer sganio, bydd angen i chi ofyn i'r crwner cyn gynted â phosibl. Os defnyddir offer sganio, mae'n bosibl y gofynnir i chi dalu am gael eu defnyddio.

Efallai y bydd y crwner hefyd yn penderfynu gofyn am adroddiad tocsicoleg (samplau o hylif fel gwaed ac wrin i adnabod cyffuriau, alcohol neu gemegion niweidiol eraill yn y corff) neu histoleg (pan gymerir samplau o organau a'u profi o dan ficrosgop). Gall y profion a'r gweithdrefnau hyn gael eu cynnal yn hytrach na phost-mortem neu sgan, neu yn ogystal â nhw.

3.4 Pryd bydd rhaid cael mwy nag un post-mortem?

Weithiau, bydd gofyn i'r crwner gytuno ar ail bost-mortem. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, yn enwedig os yw rhywun wedi cael ei arestio neu ei gyhuddo mewn perthynas â marwolaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses hon, cyfeiriwch at Ganllawiau'r Prif Grwner (Rhif 32) yn https://www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/office-chief-coroner/guidance-law-sheets/coroners-guidance/

3.5 Ydw i'n gallu atal post-mortem rhag cael ei gynnal?

Nid oes angen i'r crwner gael eich caniatâd i gynnal post-mortem, ond bydd yn egluro pam bod angen cynnal un, yn ei farn ef.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd crwneriaid yn ystyried eich anghenion a'ch dewisiadau o ran eich ffydd a'ch diwylliant. Dylech drafod y rhain gyda swyddfa'r crwner cyn gynted â phosibl.

3.6 Ydw i'n gallu mynd i'r post-mortem?

Ni allwch fynd i'r post-mortem eich hun, ond gallwch ofyn i feddyg eich cynrychioli, er gall y meddyg godi tâl arnoch am hyn. Os ydych chi am i feddyg fod yn bresennol, dylech ddweud wrth y crwner er mwyn iddo roi gwybod i chi pryd a ble bydd y post-mortem yn cael ei gynnal. Dylid caniatáu i'r meddyg fod yn bresennol oni bai ei bod yn anymarferol neu byddai'n achosi oedi.

3.7 A fydda i'n cael y corff ar ôl y post-mortem?

Os bydd y post-mortem yn dangos marwolaeth o achos naturiol, ni fydd angen i'r crwner ymchwilio ymhellach. Bydd wedyn yn dychwelyd y corff atoch er mwyn i chi allu cynnal yr angladd.

Os yw'r farwolaeth yn dreisgar neu'n annaturiol, neu os oes amgylchiadau eraill yn berthnasol, er enghraifft lle bu farw'r person yn nalfa'r wladwriaeth, e.e. yn y carchar, gall y crwner benderfynu bod angen ymchwilio iddi ymhellach. Fel arfer, bydd y crwner yn dal i ddychwelyd y corff i chi ar y pwynt yma ond o bryd i'w gilydd, ni fydd hyn yn bosibl. Os felly, bydd swyddfa'r crwner yn egluro'r trefniadau i chi.

3.8 A fydd unrhyw organau'n cael eu cadw ar ôl y post-mortem?

Weithiau bydd y patholegydd yn tynnu samplau hylifol, darnau bach o feinwe ac, o bryd i'w gilydd, organau o gorff os bydd hyn yn helpu i ganfod achos y farwolaeth neu pwy yw'r person sydd wedi marw.

Gellir gwneud hyn at ddibenion profion tocsicoleg neu histoleg a gaiff eu cynnal ar ôl i'r post-mortem gael ei gwblhau a'r corff gael ei ryddhau i chi ar gyfer ei gladdu neu ei amlosgi.

Nid oes angen i'r crwner gael eich caniatâd i dynnu samplau o'r corff ond os bydd hyn yn digwydd, mae'n rhaid i'r crwner ddweud wrthych chi, a rhoi opsiynau i chi er mwyn i chi allu penderfynu beth sy'n digwydd pan na fydd angen y feinwe neu'r organau mwyach ar gyfer ymchwiliad y crwner. Bydd swyddog y crwner yn dweud wrthych chi faint o amser mae'r profion hyn yn debygol o gymryd.

Mewn achosion eithriadol, (er enghraifft, mewn achosion o lofruddiaeth) efallai y bydd yn rhaid cadw'r meinweoedd am hirach fel tystiolaeth. Pan na fydd angen y feinwe neu'r organau mwyach ar y crwner, mae tri dewis ar gyfer beth all ddigwydd. Gellir gwneud y canlynol gyda'r deunydd:

- i waredu drwy ddulliau cyfreithlon
- ei ddychwelyd atoch (os mai dyma yw eich dewis, ond gallai hyn arwain at oedi cyn rhyddhau'r corff)
- ei storio er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol, er enghraifft ar gyfer adolygiadau, addysg a hyfforddiant neu waith ymchwil yn y dyfodol. Dim ond gyda chaniatâd priodol y gall hyn ddigwydd – mae rhagor o wybodaeth am hyn a phwy all roi caniatâd ar gael ar wefan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol https://www.hta.gov.uk/guidance-public

3.9 Beth sy'n digwydd ar ôl i'r post-mortem gael ei gwblhau?

Ar ôl y post-mortem, bydd y patholegydd neu'r arbenigwr arall a gynhaliodd yr archwiliad yn anfon adroddiad byr at y crwner yn egluro'r hyn mae wedi'i ganfod. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r hyn a wnaeth yn yr archwiliad, unrhyw feinwe ac organau a gadwyd a pham, ac unrhyw brofion pellach sy'n cael eu cynnal.

Unwaith y bydd yr holl brofion wedi'u cwblhau, bydd y patholegydd neu'r arbenigwr arall yn anfon yr adroddiad llawn at y crwner. Dylech ofyn i swyddfa'r crwner am gopi o'r adroddiad hwn os ydych am ei weld.

Weithiau, gall adroddiad terfynol gymryd rai wythnosau neu fisoedd i'w gwblhau am fod yr archwiliad yn un cymhleth. Dyma'r achos yn aml os bu post-mortem fforensig, lle mae angen archwilio'r organau yn arbenigol neu lle cynhaliwyd archwiliad ar faban. Bydd swyddfa'r crwner yn rhoi gwybod i chi os oes unrhyw oedi.

3.10 Beth os nad ydw i'n cytuno â'r adroddiad?

Os ydych chi'n anghytuno â'r adroddiad post-mortem, dylech drafod hyn â swyddog y crwner yn gyntaf. Efallai y byddwch am ystyried trefnu eich post-mortem eich hun ar ôl i'r crwner ryddhau'r corff i'ch cyfarwyddwr angladdau dewisol. Byddai'n rhaid i chi dalu am hyn eich hun. Gallwch hefyd ofyn i'r crwner a fydd yn gwneud cais am ail bost-mortem.

3.11 Beth fydd y crwner yn ei wneud gyda'r adroddiad?

Mae'r adroddiad post-mortem yn rhan o'r dystiolaeth y bydd y crwner yn ei hystyried fel rhan o'i ymchwiliad. Os bydd y post-mortem yn dangos marwolaeth o achos naturiol, mae'n bosibl y bydd y crwner yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach. Fodd bynnag, y crwner sy'n gyfrifol yn y pen draw am y penderfyniad terfynol ar achos y farwolaeth, nid y patholegydd.

Os oes cwest, bydd yr adroddiad post-mortem yn rhan o'r dystiolaeth.

Y safonau y gallwch eu disgwyl gyda phost-mortem

Bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthych chi pryd a ble y cynhelir archwiliad, lle bo hynny'n bosibl.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon, dylech roi gwybod i swyddogion y crwner cyn gynted â phosibl er mwyn iddynt allu ystyried eich dymuniadau.

Os bydd y crwner yn penderfynu peidio â gofyn am bost-mortem, ond eich bod chi'n credu y dylid cynnal un, dylech drafod hyn gyda swyddfa'r crwner cyn gynted â phosibl.

Adran 4

Cyngor cyfreithiol – mae cwest yn mynd i gael ei gynnal - a fydd angen cyfreithiwr arna i?

Y Prif Bwyntiau

Nid oes rhaid i chi gael cyfreithiwr i fynychu nac i gymryd rhan mewn cwest.

Bydd y crwner yn eich helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y cwest a pham.

Efallai y byddwch am ystyried cael cymorth cyfreithiol ar gyfer gwrandawiad cwest os oes gan bobl eraill â buddiant gynrychiolwyr yn bresennol, er enghraifft os oes gan y wladwriaeth neu gorff cyhoeddus gynrychiolaeth gyfreithiol yn y cwest.

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol, efallai y bydd gennych chi hawl i gael cymorth ariannol gan y llywodraeth i dalu am help cyfreithiol i baratoi ar gyfer y cwest; neu gynrychiolaeth gyfreithiol yn y cwest.

Dim ond o dan rai amgylchiadau y mae arian cyhoeddus ('cymorth cyfreithiol') ar gael i dalu am gyfreithiwr i'ch cynrychioli mewn gwrandawiad cwest.

4.1 A oes angen cyfreithiwr arna i?

Mae cwest yn ymchwiliad canfod ffeithiau a gaiff ei arwain gan y crwner ac nid yw'n debyg i dreial troseddol. Nid oes angen i gyfreithiwr fod yn bresennol yn y cwest na chymryd rhan ynddo yn cynnwys pan fyddwch chi'n dymuno gofyn cwestiynau penodol neu pan fyddwch chi'n rhoi tystiolaeth. Bydd y crwner yn sicrhau bod y broses yn deg ac yn drylwyr, eich bod yn gallu cymryd rhan a bod gennych chi gyfle i ofyn cwestiynau perthnasol. Mae rhagor o fanylion am broses y cwest ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw hwn.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adegau pan fyddwch chi'n awyddus i gael cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol wrth baratoi ar gyfer cwest neu ei fynychu, er enghraifft lle mae gan y wladwriaeth neu gorff cyhoeddus gynrychiolaeth gyfreithiol yn y cwest oherwydd amgylchiadau'r farwolaeth.

4.2 Ble galla i ddod o hyd i gyfreithiwr?

Os hoffech gael cyfreithiwr i'ch cynrychioli, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddewis cyfreithiwr sydd â phrofiad o gwestau ac arbenigedd ynddynt. Gall gwefan Cymdeithas y Cyfreithwyr eich helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr yn https://solicitors.lawsociety.org.uk/

Bydd angen i chi ddweud wrth swyddfa'r crwner os bydd cyfreithiwr yn eich cynrychioli chi er mwyn i'ch cyfreithiwr gael gwybodaeth, fel dyddiadau gwrandawiadau, dogfennau ac adroddiadau arbenigol.

4.3 A oes Cymorth Cyfreithiol ar gael ar gyfer fynghostau cyfreithiol?

Gelwir cyllid cyhoeddus ar gyfer cymorth a chyngor cyfreithiol cynnar cyn gwrandawiad y cwest yn gymorth cyfreithiol, ac mae ar gael ar gyfer cwestau yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol. Gellir ei ddefnyddio i'ch helpu i baratoi cwestiynau rydych chi am i'r crwner eu gofyn i dystion eraill.

Dim ond o dan rai amgylchiadau y mae cyllid cyhoeddus ar gael ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn gwrandawiad cwest.

4.4 A oes Cymorth Cyfreithiol ar gael os yw'r wladwriaeth neu gorff cyhoeddus yn berson â buddiant yn y cwest?

Mewn rhai cwestau, bydd y wladwriaeth neu gorff cyhoeddus yn cyfrif fel personau â buddiant. Gall hyn ddigwydd oherwydd bod y person wedi marw mewn amgylchiadau lle'r oedd gan y wladwriaeth neu gorff cyhoeddus ddyletswydd gofal, er enghraifft, lle bu farw rhywun yn y carchar neu yng ngorsaf yr heddlu.

Yn yr achosion hyn, gellir galw'r cwest yn gwest 'Erthygl 2'. Mae hyn yn cyfeirio at rwymedigaethau'r wladwriaeth neu'r cyrff cyhoeddus i ddiogelu bywyd o dan Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn yr achosion hyn, gall Cymorth Cyfreithiol fod ar gael ar gyfer eich cynrychiolaeth mewn cwest, o dan y 'cynllun Cyllid Achosion Eithriadol', yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol.

4.5 A fydda i'n cael Cymorth Cyfreithiol os oes llawer o ddiddordeb yn y cwest?

Gall fod llawer o ddiddordeb mewn cwest, yn enwedig pan fydd rhywun wedi marw oherwydd methiannau'r wladwriaeth neu gorff cyhoeddus.

Gallwch wneud cais i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am Gyllid Achosion Eithriadol ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwest. Gallech fod yn gymwys yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol, ac os ydych chi'n teimlo bod y cwest yn bwysig i ddiogelu bywyd, iechyd neu ddiogelwch pobl eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am gymorth cyfreithiol ar gael yma https://www.gov.uk/legal-aid

Adran 5

Mae cwest yn mynd i gael ei gynnal - beth fydd yn digwydd nesaf?

Y Prif Bwyntiau

Mae cwest yn wrandawiad mewn llys cyhoeddus lle bydd y crwner, weithiau gyda rheithgor, yn penderfynu pwy fu farw a sut, pryd a ble y bu farw.

Mewn achosion mwy cymhleth neu os oes llawer o dystion, gall fod adolygiad cyn y cwest lle bydd y crwner yn nodi sut bydd y cwest yn cael ei gynnal, y prif faterion a fydd yn cael eu hystyried, y dogfennau angenrheidiol, pa dystiolaeth fydd yn cael ei chlywed a pha dystion ac arbenigwyr fydd yn cael eu galw.

Efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth os ydych chi'n gallu rhoi gwybodaeth am y farwolaeth.

Gallwch fynd i'r cwest hyd yn oed os nad ydych chi'n rhoi tystiolaeth.

Gallwch chi, neu eich cynrychiolydd cyfreithiol os oes gennych chi un, ofyn cwestiynau perthnasol i'r tystion. Gall y crwner eich helpu gyda hyn a gall ofyn y cwestiynau ar eich rhan.

Gall ffrind neu aelod o'r teulu eistedd gyda chi yn ystod y gwrandawiad ac mae mudiadau cymorth eraill ar gael a all fynd gyda chi i'ch cefnogi.

Mae'n rhaid cael rheithgor mewn rhai amgylchiadau fel y nodir yn y Ddeddf, er enghraifft lle bo'r farwolaeth wedi digwydd yn y carchar neu mewn math arall o ddalfa'r wladwriaeth.

5.1 Beth yw cwest?

Mae cwest yn wrandawiad mewn llys cyhoeddus a gynhelir gan y crwner i benderfynu pwy fu farw a sut, pryd a ble y bu farw. Gellir ei gynnal gyda neu heb reithgor, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. (Gweler isod am fanylion cwestau sy'n defnyddio rheithgor.) Yn y cwest, bydd y crwner yn clywed gan dystion ac yn ystyried tystiolaeth arall fel adroddiadau post-mortem neu adroddiadau arbenigol. Nid oes angen i bob marwolaeth y bydd crwner yn ymchwilio iddi gael cwest. Cewch wybod pan fydd angen cwest.

Mae cwest yn wahanol i fathau eraill o wrandawiadau llys gan nad oes unrhyw erlyniad nac amddiffyniad a dim ond y crwner all benderfynu pa dystiolaeth i'w chlywed. Gan mai pwrpas y cwest yw darganfod ffeithiau'r farwolaeth yn unig, ni all y crwner (na'r rheithgor) gael unrhyw un yn droseddol gyfrifol am y farwolaeth.

Fodd bynnag, os canfyddir tystiolaeth sy'n awgrymu y gall rhywun fod yn droseddol gyfrifol am y farwolaeth, gall y crwner drosglwyddo'r dystiolaeth i'r heddlu neu i Wasanaeth Erlyn y Goron. Yn yr un modd, ni all y crwner (na'r rheithgor) gael rhywun yn atebol o dan y gyfraith sifil. Materion i lysoedd eraill yw'r rhain.

5.2 Pryd bydd y cwest yn cael ei gynnal?

Dylid cynnal gwrandawiad cwest o fewn chwe mis neu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r crwner gael ei hysbysu am y farwolaeth. Weithiau, gall gymryd mwy na chwe mis i gynnal y cwest. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw bod yn rhaid i sefydliadau eraill gynnal ymchwiliadau eraill i'r farwolaeth yn gyntaf, er enghraifft yr heddlu neu sefydliadau fel yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ar gyfer marwolaeth yn y carchar neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer marwolaeth yn y gwaith. Bydd swyddfa'r crwner yn rhoi'r diweddaraf i chi am hynt yr achos. Os nad yw crwner wedi cwblhau ei ymchwiliad o fewn 12 mis, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r Prif Grwner gan nodi rhesymau dros yr oedi.

5.3 Pa mor hir fydd gwrandawiad y cwest yn para?

TBydd hyd gwrandawiad cwest yn dibynnu ar yr achos unigol a pha mor gymhleth ydyw. Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau cwest yn eithaf byr ac ni fyddant yn para mwy nag ychydig oriau tra bydd y rhai mwy cymhleth, er enghraifft lle mae gan y wladwriaeth neu gorff cyhoeddus statws person â buddiant, yn gallu para sawl wythnos. Bydd swyddog y crwner yn gallu rhoi syniad i chi o ba mor hir y gall gwrandawiad cwest bara yn eich achos chi.

5.4 Beth fydd yn digwydd gyntaf?

Pan fydd angen cwest, mae'n rhaid i'r crwner ei 'agor' cyn gynted â phosibl. Mae'r gwrandawiad i agor y cwest fel arfer yn fyr iawn ac fe'i cynhelir yn gyhoeddus. Mae hyn yn golygu y gall aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol ac mewn rhai achosion gall y wasg fod yn bresennol hefyd ac adrodd ar y manylion. Fel arfer, bydd y crwner wedyn yn gohirio neu'n oedi'r cwest ar unwaith tan ddyddiad yn y dyfodol pan fydd ganddo'r holl wybodaeth sydd ei hangen arno i barhau â gwrandawiad y cwest. Er enghraifft, efallai y bydd y crwner yn penderfynu bod angen adroddiadau arbenigol i helpu i ddeall beth gyfrannodd at y farwolaeth. Adeg agor y cwest, mae'n rhaid i'r crwner bennu dyddiadau gwrandawiadau diweddarach lle bo hynny'n bosibl.

Fodd bynnag, ar gyfer rhai cwestau lle bo'r holl wybodaeth ar gael yn barod, gellir agor y cwest a bydd y crwner yn gwrando arno ac yn llunio casgliadau yn y gwrandawiad hwnnw. Bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthych chi os bydd hyn yn digwydd.

Nid oes angen i chi ddod i agoriad y cwest ond os ydych chi am wneud hynny, dylech ddweud wrth swyddfa'r crwner er mwyn i'w swyddogion allu dweud wrthych chi pryd a ble bydd yr agoriad hwnnw'n cael ei gynnal.

5.5 Beth yw adolygiad cyn cwest?

Os yw'r achos yn gymhleth, gall y crwner gynnal un neu fwy o wrandawiadau cyn y cwest ei hun. Gelwir y rhain yn adolygiadau cyn cwest. Bydd gwrandawiadau adolygu cyn y cwest yn ymdrin â materion trefn a materion eraill y mae angen penderfynu arnynt cyn y gellir cynnal gwrandawiad cwest. Efallai fod y rhain yn bethau fel 'cwmpas' y cwest (pa faterion y bydd yn ymdrin â nhw), pa ddogfennau fydd eu hangen a pha dystion ac arbenigwyr fydd yn rhoi tystiolaeth.

Bydd y crwner yn eich gwahodd i'r adolygiad cyn cwest lle gallwch roi eich barn am yr hyn y dylai'r cwest ei ystyried. Bydd y crwner yn ystyried eich barn ond ef fydd yn gwneud y penderfyniad. Nid oes rhaid i chi fynd i'r adolygiad cyn cwest os nad ydych chi'n awyddus i wneud hynny. Os oes gennych chi gyfreithiwr, efallai y byddwch am iddo fod yn bresennol naill ai gyda chi neu yn eich lle.

Gall pobl eraill â buddiant fod yn bresennol hefyd gydag unrhyw gynrychiolwyr cyfreithiol sydd ganddynt.

5.6 Ydw i'n gallu cael copïau o ddogfennau?

Fel person â buddiant, rhoddir copïau o ddogfennau i chi y bydd y crwner neu dystion eraill yn eu defnyddio yn y cwest, er enghraifft, cofnodion meddygol, datganiadau gan dystion ac adroddiadau arbenigol - gelwir hyn yn 'ddatgeliad'. Gallwch hefyd ofyn yn yr adolygiad cyn y cwest am i gopïau gael eu hanfon atoch chi neu efallai y gallech fynd i swyddfa'r crwner i edrych ar ddogfen.

Os nad ydych chi'n derbyn y dogfennau y credwch fod gennych chi'r hawl iddynt, dylech siarad â swyddfa'r crwner cyn gynted ag y bo modd. Ni fydd swyddfa'r crwner yn codi tâl arnoch chi am gopïau o ddogfennau y byddant yn eu rhoi i chi cyn neu yn ystod y cwest, ond gallant godi tâl am gopïau y byddant yn eu rhoi i chi ar ôl y cwest.

Am resymau cyfreithiol, efallai na fydd y crwner yn gallu rhoi pob dogfen i chi neu bob rhan o ddogfen mae wedi'i chael neu mae'n bwriadu ei defnyddio yn y cwest. Dylai'r crwner esbonio pam nad yw wedi rhoi dogfen benodol i chi neu pam mai dim ond rhan o ddogfen y mae wedi'i rhoi i chi.

Mae'n rhaid recordio pob gwrandawiad cwest ac mae gennych chi'r hawl i ofyn am recordiad o'r achos.

Y safonau y gallwch eu disgwyl gyda chwest

Bydd swyddfa'r crwner yn cysylltu â chi'n rheolaidd. Mewn ymchwiliad hir, bydd yn cysylltu â chi o leiaf bob tri mis i roi'r diweddaraf i chi am hynt eich achos (oni bai eich bod ddim ond eisiau clywed os oes unrhyw gynnydd i'w nodi). Gallwch hefyd gysylltu â swyddfa'r crwner i gael y diweddaraf.

Mae'n rhaid i swyddfa'r crwner ddweud wrthych chi beth yw dyddiad ac amser y cwest a ble bydd yn cael ei gynnal o fewn wythnos i drefnu'r cwest. Bydd swyddfa'r crwner yn ystyried eich sylwadau am ddyddiad ac amser y cwest pan fo'n bosibl.

Os bydd rhaid newid dyddiad neu leoliad y cwest, bydd swyddfa'r crwner yn rhoi gwybod i chi o fewn wythnos i'r newid.

Gall swyddfa'r crwner roi gwybodaeth i chi am unrhyw un arall allai fod yn bresennol yn y cwest a sut gallwch chi gymryd rhan.

Os bydd adolygiad cyn y cwest, bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthych chi beth yw'r dyddiad a'r amser, ble bydd yn cael ei gynnal a pham bod y crwner wedi penderfynu cynnal un.

Os ydych chi'n berson â buddiant, dylai'r crwner fod wedi rhoi copïau i chi o ddogfennau perthnasol cyn y cwest.

5.7 A oes rhaid i mi fod yn bresennol yn y cwest?

Os gofynnir i chi roi tystiolaeth yn y gwrandawiad, bydd disgwyl i chi fod yn bresennol. Os ydych chi'n credu y bydd hyn yn rhy anodd, dylech drafod hyn gyda swyddfa'r crwner. Os bydd yn cytuno, mae gennych chi'r hawl i roi datganiad ysgrifenedig yn lle hynny, a gaiff ei ddarllen yn y gwrandawiad.

Nid oes angen i chi fynd i gwest os nad ydych chi'n rhoi tystiolaeth. Eich penderfyniad chi yw hyn.

Oni bai eich bod yn rhoi tystiolaeth ar y pryd, mae croeso i chi adael a dychwelyd i ystafell y gwrandawiad unrhyw bryd. Bydd crwneriaid fel arfer yn dweud wrthych chi os yw'r dystiolaeth yn debygol o beri trallod.

5.8 Ydw i'n gallu dod â rhywun gyda fi i'm cefnogi?

Os byddwch chi'n dewis dod i'r cwest, gallwch ddod â rhywun gyda chi fel ffrind, aelod o'r teulu neu rywun o'ch cymuned i roi cefnogaeth i chi yn y gwrandawiad. Mae gan rai llysoedd crwneriaid wasanaeth cymorth annibynnol. Gall eu gwirfoddolwyr hyfforddedig siarad â chi cyn y cwest ynghylch yr hyn fydd yn digwydd a gallant eistedd gyda chi yn ystafell y gwrandawiad ar ddiwrnod(au) y gwrandawiad. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn. Bydd swyddfa'r crwner yn dweud wrthych chi a oes gwasanaeth cymorth ar gael. Mae manylion cyswllt mudiadau a all eich helpu chi wedi'u nodi ar ddiwedd y ddogfen hon.

5.9 A fydd ardal aros breifat ar gael?

Gwneir pob ymdrech mewn llysoedd crwneriaid i ddarparu ardal breifat i aelodau'r teulu, ond ni fydd hyn bob amser yn bosibl. Dylech ofyn i swyddfa'r crwner os oes modd darparu ardal o'r fath os nad oes un ar gael yn awtomatig. Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ardal breifat ac i gynnig seddi ar wahân yn ystafell y gwrandawiad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn dod i gysylltiad â thystion eraill a allai fod yn gysylltiedig â'r farwolaeth.

5.10 Pwy arall fydd yn y cwest?

Bydd aelodau o swyddfa'r crwner yn helpu'r crwner i gynnal y gwrandawiad yn ddidrafferth.

Gellir gofyn i dystion (er enghraifft meddyg, swyddog heddlu, swyddog carchar, neu unrhyw un a oedd yn bresennol adeg y farwolaeth) fod yn bresennol i roi tystiolaeth, felly hefyd bersonau â buddiant. Dim ond pan fyddant yn rhoi eu tystiolaeth y gallant fod yn bresennol ac nid ar gyfer y gwrandawiad cyfan. Efallai y bydd cyfreithwyr yno hefyd yn cynrychioli tystion neu bersonau eraill â buddiant.

Gellir rhoi tystiolaeth drwy gyswllt fideo lle bo angen hefyd.

Mae gwrandawiadau cwest a chyn cwest yn wrandawiadau cyhoeddus felly mae gan aelodau'r cyhoedd a'r cyfryngau yr hawl i fod yn bresennol.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd rheithgor. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael isod.

5.11 Pwy sy'n penderfynu pa dystion i'w galw i roi tystiolaeth?

Y crwner fydd yn penderfynu pwy ddylai roi tystiolaeth fel tyst ac ym mha drefn y byddant yn rhoi eu tystiolaeth. Os ydych chi'n credu bod gennych chi dystiolaeth, neu y dylid galw tyst penodol, dylech ddweud wrth swyddfa'r crwner mewn da bryd cyn y gwrandawiad. Bydd y crwner yn penderfynu wedyn a yw'r dystiolaeth yn berthnasol i'w ymchwiliad.

5.12 Gofynnwyd i mi roi tystiolaeth, sut bydd hynny'n digwydd?

Efallai y gofynnir i chi roi gwybodaeth am y person sydd wedi marw neu am y farwolaeth. Os ydych chi'n rhoi tystiolaeth, byddwch yn gwneud hynny'n gyntaf fel arfer, ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o'r teulu sydd hefyd yn rhoi tystiolaeth.

Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth dan lw neu drwy gadarnhau y byddwch chi'n dweud y gwir. Dylech ddweud wrth swyddfa'r crwner beth yw eich ffydd (os oes gennych chi un) er mwyn i chi gael y llyfr ffydd cywir wrth dyngu'r llw.

Bydd y crwner yn gofyn cwestiynau i chi yn gyntaf a gall drafod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig rydych chi wedi'i wneud. Efallai y bydd eich cynrychiolydd cyfreithiol (os oes gennych chi un) yn gofyn cwestiynau i chi yn ogystal â chynrychiolwyr cyfreithiol y personau eraill â buddiant, yn cynnwys y rheini o'r wladwriaeth neu'r corff cyhoeddus. Os oes rheithgor, bydd hawl gan aelodau'r rheithgor hefyd i ofyn unrhyw gwestiynau perthnasol i chi, y gellir eu gofyn i chi drwy'r crwner.

Pan fydd pawb wedi gorffen gofyn cwestiynau, gallwch ddychwelyd i'ch sedd

ac aros i wrando ar weddill y gwrandawiad a'r tystion eraill, os dymunwch chi. Bydd rhywfaint o dystiolaeth yn cael ei darllen ac ni fydd angen i'r tyst fynychu'n bersonol. Bydd y crwner yn penderfynu hyn cyn y gwrandawiad.

5.13 Ydw i'n gallu gofyn cwestiynau i'r tystion?

Os ydych chi'n berson â buddiant, unwaith y bydd y crwner wedi gofyn ei gwestiynau, mae gennych chi'r hawl i ofyn eich cwestiynau chi. Os ydych chi wedi dewis cyfarwyddo cynrychiolydd cyfreithiol, efallai y byddai'n well gennych chi ei fod ef yn gofyn cwestiynau ar eich rhan.

Wrth feddwl am y cwestiynau i'w gofyn, dylech geisio gofyn cwestiynau a fydd yn helpu i bennu ffeithiau'r farwolaeth.

Bydd y crwner yn penderfynu a yw cwestiwn yn berthnasol. Bydd yn dweud wrthych chi, neu wrth unrhyw berson â buddiant a'i gynrychiolydd cyfreithiol, os nad yw'n credu bod cwestiwn yn berthnasol.

Bydd y crwner hefyd yn rhybuddio tyst nad oes rhaid iddo ateb unrhyw gwestiwn a allai arwain at ddangos y gallai fod yn euog o drosedd.

5.14 A fydd unrhyw beth preifat neu bersonol yn cael ei ddweud am y person sydd wedi marw?

Gan mai bwriad y cwest yw canfod beth ddigwyddodd, mae'n bosibl y bydd tystiolaeth sy'n berthnasol, ym marn y crwner, yn dangos gwybodaeth breifat neu bersonol am y person a fu farw. Gallwch ofyn i'r crwner beidio â chyhoeddi'r wybodaeth hon os nad ydych chi'n credu ei bod hi'n berthnasol, ond penderfyniad y crwner yw hyn yn y pen draw. Bydd crwneriaid yn sensitif i'ch anghenion ond yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddynt benderfynu beth ddigwyddodd, felly mae'n bosibl y bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chlywed yn y gwrandawiad.

5.15 Pryd bydd rheithgor yn cael ei ddefnyddio?

Cynhelir y rhan fwyaf o gwestau heb reithgor, ond mae adegau pan fydd y gyfraith yn dweud bod rhaid galw ar reithgor. Mae hyn yn cynnwys:

- os digwyddodd y farwolaeth yn y carchar, yn nalfa'r heddlu neu mewn math arall o ddalfa'r wladwriaeth (ac eithrio pan fo'r farwolaeth o achosion naturiol); neu
- os achoswyd y farwolaeth gan ddamwain yn y gwaith;
- os yw'r uwch grwner yn credu bod rheswm digonol dros wneud hynny.

5.16 Beth yw gwaith y rheithgor?

Mewn cwest a glywir gyda rheithgor, y rheithgor fydd yn penderfynu ar ffeithiau'r achos ac yn ateb y cwestiynau ynghylch sut bu farw'r person ac achos y farwolaeth. Fel y crwner, ni chaiff y rheithgor feio rhywun am y farwolaeth. Y crwner fydd yn penderfynu ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith a gweithdrefnau, er enghraifft, pa dystion i'w galw.

Adran 6
Ar ddiwedd y cwest

Y Prif Bwyntiau

Pan fydd y crwner wedi clywed yr holl dystiolaeth, bydd yn rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau.

Ni allwch chi na'ch cynrychiolydd cyfreithiol (os oes gennych un) wneud sylwadau i'r crwner ynghylch ffeithiau'r achos.

Os oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol, mae ganddo'r hawl i wneud sylwadau i'r crwner am yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud am y casgliadau posibl y gallai'r crwner neu'r rheithgor eu llunio.

Yna, bydd y crwner neu'r rheithgor, os oes un, yn cyflwyno eu casgliad ynghylch pwy fu farw a sut, pryd a ble y bu farw.

6.1 Beth sy'n digwydd ar ôl i'r holl dystion roi tystiolaeth?

Ar ôl i'r holl dystion roi eu tystiolaeth, bydd y crwner yn crynhoi'r cyfan. Yn wahanol i dreial troseddol, ni fydd cynrychiolwyr cyfreithiol yn crynhoi'r dystiolaeth nac yn cyflwyno araith ar yr hyn ddylai canlyniad y cwest fod, yn eu barn nhw. Fodd bynnag, mae gan gynrychiolwyr cyfreithiol hawl i wneud sylwadau i'r crwner ynglŷn â'r gyfraith yng nghyswllt y casgliadau posibl, er enghraifft beth mae achosion cyfreithiol eraill wedi'i ddweud am beth ddylai'r gyfraith fod. Os oes rheithgor, bydd y crwner yn siarad â'r rheithgor ynghylch sut dylent ddefnyddio'r gyfraith wrth wneud eu penderfyniad.

6.2 Pryd bydd y crwner yn gwneud y penderfyniad o ran beth ddigwyddodd?

Ar ôl crynhoi, bydd y crwner, neu'r rheithgor os oes un, yn cyflwyno eu casgliad. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniad cyfreithiol ynghylch yr hyn ddigwyddodd ac achos y farwolaeth a 'chanfyddiadau' fel pa ffeithiau gyfrannodd at y farwolaeth.

Cyn i'r crwner gyflwyno ei gasgliad, efallai y bydd yn cael seibiant byr o'r gwrandawiad i ystyried beth fydd hynny. Os oes rheithgor, bydd aelodau'r rheithgor yn gadael ystafell y gwrandawiad i drafod yr achos yn breifat ac i gytuno ar eu casgliadau. Efallai y bydd y rheithgor yn gofyn cwestiynau i'r crwner os bydd rhywbeth yn aneglur ond ni fydd rhagor o dystiolaeth yn cael ei chyflwyno. Efallai y bydd y crwner yn penderfynu pa gasgliadau y gall y rheithgor eu hystyried.

Unwaith y bydd y crwner neu'r rheithgor wedi penderfynu beth yw'r casgliad, byddant yn dychwelyd i ystafell y gwrandawiad i ddweud wrth y crwner beth yw eu penderfyniad. Dyma ddiwedd gwrandawiad cwest.

Caiff Cofnod o Gwest ei baratoi gan swyddfa'r crwner a darperir copi i'r personau â buddiant.

6.3 Pa gasgliadau y gellid eu gwneud?

Pan fydd y crwner neu'r rheithgor yn rhoi achos y farwolaeth, gallant ddod i un o'r casgliadau canlynol:

- anffawd neu farwolaeth ddamweiniol;
- cysylltiedig ag alcohol/cyffuriau;
- clefyd diwydiannol;
- lladd cyfreithlon/anghyfreithlon - mae ystyr y termau hyn wedi'i nodi mewn cyfraith;
- achosion naturiol;
- agored, defnyddir hwn pan nad oes digon o dystiolaeth i benderfynu ar unrhyw un o'r casgliadau eraill;
- gwrthdrawiad traffig ar y ffordd;
- marw-enedigaeth;
- hunanladdiad.

Gall y crwner neu'r rheithgor roi rhagor o fanylion yn egluro eu rhesymau dros ddod i gasgliad penodol.

Fel arall, neu weithiau yn ogystal â'r manylion hyn, gall y crwner gyflwyno casgliad 'naratif' sy'n nodi'r ffeithiau yn ymwneud â'r farwolaeth yn fwy manwl ac yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad. Mae casgliad naratif yn debygol o gael ei roi pan fydd yr achos yn fwy cymhleth gan ei fod yn gallu rhoi esboniad hirach o'r rhesymau dros y penderfyniad a beth yw'r materion pwysig.

Mae'n bosibl herio casgliad crwner. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn nes ymlaen yn y Canllaw.

6.4 Beth os gellid atal marwolaethau yn y dyfodol?

Weithiau, bydd cwest crwner yn dangos y gellid gwneud rhywbeth i atal marwolaethau eraill. Os yw'r crwner yn credu bod hyn yn wir, mae'n rhaid iddo dynnu sylw at hyn drwy ysgrifennu adroddiad at sefydliad (neu berson) all weithredu ar y mater. Gelwir hyn yn 'adroddiad i atal marwolaethau yn y dyfodol' neu'n 'Adroddiad Rheoliad 28'.

Mae'n rhaid i'r sefydliad neu'r person anfon ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad at y crwner, o fewn 56 diwrnod, yn nodi pa gamau y bydd yn eu cymryd o ganlyniad. Os hoffech weld copi o'r adroddiad a'r ymateb, dylech roi gwybod i swyddfa'r crwner. Cyhoeddir yr adroddiadau ar wefan y Prif Grwner hefyd https://www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/office-chief-coroner/https-www-judiciary-uk-subject-community-health-care-and-emergency-services-related-deaths/

Adran 7

Amgylchiadau lle gall proses y cwest fod yn wahanol

Y Prif Bwyntiau

Mae rhai amgylchiadau lle gall y broses fod yn wahanol, yn cynnwys y canlynol::

- Lle bu farw'r person yn y carchar, yn nalfa'r heddlu neu yn 'nalfa'r wladwriaeth', er enghraifft, lle daliwyd y person a fu farw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu lle cafodd ei gadw mewn canolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr.
- Lle bo ymchwiliad troseddol.
- Lle bo ymchwiliad arall fel ymchwiliad cyhoeddus yn ymchwilio i'r farwolaeth.

7.1 Bu farw fy mherthynas yn nalfa'r heddlu neu yn y carchar – a fydd pethau'n cael eu gwneud yn wahanol?

Pan fydd rhywun yn marw yn y carchar, yn nalfa'r heddlu neu mewn math arall o ddalfa'r wladwriaeth, mae'n rhaid cynnal cwest. Gall dalfa'r wladwriaeth gynnwys cael eich dal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mewn achosion lle gallai'r wladwriaeth neu gorff cyhoeddus fod â rhwymedigaethau mewn perthynas ag amgylchiadau marwolaeth, yn cynnwys lle bo person wedi marw yn nalfa'r heddlu neu yn y carchar, gellir galw'r cwest yn gwest 'Erthygl 2'. Mae hyn yn cyfeirio at rwymedigaethau'r wladwriaeth i ddiogelu bywyd o dan Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae proses cwest yn debygol o edrych a theimlo'r un fath â chwestau eraill, ond bydd yn ofynnol i'r crwner neu'r rheithgor ymchwilio'n ehangach i rai o amgylchiadau ffeithiol y farwolaeth.

Mewn achosion o'r fath, gall y wladwriaeth neu'r corff cyhoeddus fod â statws person â buddiant a gall fod â chynrychiolaeth gyfreithiol yn y cwest. Os felly, efallai y byddwch chi am gael cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae'n bosibl y gallwch chi gael cymorth cyfreithiol dan y cynllun Cyllid Achosion Eithriadol os ystyrir bod y cwest yn gwest 'Erthygl 2' - mae rhagor o fanylion am gynrychiolaeth gyfreithiol a chymorth cyfreithiol ar gael mewn man arall yn y Canllaw hwn.

7.2 Beth sy'n digwydd pan fydd ymchwiliad troseddol i farwolaeth?

Lle bo ymchwiliad troseddol i'r farwolaeth, gall y tîm amddiffyn troseddol ofyn am ail bost-mortem (er nad oes ganddynt hawl awtomatig i un). I gael rhagor o wybodaeth am y broses hon, cyfeiriwch at Ganllawiau'r Prif Grwner - Rhif 32 yn https://www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/office-chief-coroner/guidance-law-sheets/coroners-guidance/

7.3 Pam bod yr ymchwiliad (neu gwest) wedi cael ei ohirio?

Pan fydd rhywun wedi cael ei gyhuddo o drosedd fel llofruddiaeth neu ddynladdiad, mae'n rhaid i'r crwner ohirio ei ymchwiliad neu ei gwest nes bod y treial troseddol wedi dod i ben.

Efallai y caiff y cwest ei ohirio hefyd os bydd ymchwiliad cyhoeddus a gaiff ei sefydlu i ymchwilio i achos y farwolaeth.

Pan fydd crwner yn gohirio ei ymchwiliad, mae'n rhaid iddo anfon tystysgrif at y Cofrestrydd Genedigaethau a Marwolaethau sy'n cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arno i gofrestru'r farwolaeth a chyhoeddi tystysgrif marwolaeth.

Pan fydd y treial troseddol neu'r cwest cyhoeddus ar ben, bydd y crwner yn penderfynu a oes angen ailgydio yn yr ymchwiliad neu'r cwest ai peidio. Er enghraifft, os bydd yr holl ffeithiau am y farwolaeth wedi cael eu rhannu yn y treial neu'r ymchwiliad cyhoeddus, ni fydd angen ailgydio yn yr ymchwiliad neu'r cwest fel arfer.

Os bydd yr ymchwiliad neu'r cwest yn parhau, mae'n rhaid i achos y farwolaeth fod yn gyson â chanlyniad y treial troseddol neu'r ymchwiliad cyhoeddus. Bydd modd i swyddfa'r crwner ddarparu rhagor o wybodaeth am y broses.

Adran 8
Herio penderfyniad crwner a chwyno

Y Prif Bwyntiau

Os nad ydych chi'n cytuno â phenderfyniad y crwner, gall fod yn bosibl ei herio yn yr Uchel Lys mewn rhai amgylchiadau.

Mae proses gyfreithiol arbennig ar gyfer hyn a dylech gael cyngor cyfreithiol os ydych chi'n ystyried gwneud hyn.

Gallwch hefyd gwyno am ymddygiad personol crwner neu am y gwasanaeth a gawsoch gan swyddfa'r crwner.

8.1 Beth ddylwn i ei wneud os bydd gen i gŵyn?

Os oes gennych chi bryderon am benderfyniadau mae'r crwner wedi'u gwneud yn ystod ei ymchwiliad neu'r cwest, fel cam cyntaf efallai y byddwch am drafod hyn â'r crwner neu â swyddog y crwner i weld a ellir delio'n anffurfiol â'ch pryderon neu'ch cwestiynau. Os oes gennych chi bryderon o hyd ar ôl siarad â'r crwner neu â swyddog y crwner, yna mae'n bosibl y gallech chi herio hyn. Nodir sut isod.

8.2 Ydw i'n gallu herio penderfyniad crwner neu ganlyniad cwest?

O dan rai amgylchiadau, gall fod yn bosibl i chi herio penderfyniad a wnaed gan grwner yn ystod y cwest (er enghraifft, i beidio â galw tyst penodol) neu herio casgliad y cwest.

Os oes gennych chi hawl i herio penderfyniad neu gasgliad y cwest, bydd angen i chi wneud cais i'r Uchel Lys am ganiatâd i ofyn am 'adolygiad barnwrol' o benderfyniad y crwner. Mae adolygiadau barnwrol yn pennu a ddilynwyd y gyfraith yn gywir ac a ddilynwyd y gweithdrefnau cywir. Os ydych chi am herio penderfyniad crwner neu gasgliad y cwest drwy adolygiad barnwrol, mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn gynted â phosibl ac o fewn tri mis i ddyddiad y penderfyniad neu'r dyddiad y daeth y cwest i ben fan bellaf.

Os ydych chi'n ystyried herio penderfyniad crwner drwy adolygiad barnwrol, yn gyntaf, mae'n rhaid i chi gael cyngor gan gyfreithiwr sydd ag arbenigedd yn y maes hwn o'r gyfraith. Mae adolygiad barnwrol yn broses gyfreithiol gymhleth. Efallai y bydd gennych chi'r hawl i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer adolygiad barnwrol os bydd tebygolrwydd rhesymol y bydd yn llwyddo, os bydd yn fuddiol i chi, aelod o'ch teulu neu'r amgylchedd ac os gallwch ddangos na allwch fforddio talu am gostau cyfreithiol (cyfeirir at hyn fel profion modd ariannol a theilyngdod).

Mae ffordd arall o herio penderfyniad mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys y Twrnai Cyffredinol (prif gynghorydd cyfreithiol y llywodraeth). Mae gan y Twrnai Cyffredinol, neu rywun sydd â chaniatâd y Twrnai Cyffredinol, yr hawl i wneud cais i'r Uchel Lys am gynnal ymchwiliad os nad yw crwner wedi cynnal un; neu am gynnal ymchwiliad newydd (er enghraifft oherwydd bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r fei). Dim ond os bydd hynny er budd cyfiawnder y bydd yr Uchel Lys yn caniatáu ymchwiliad newydd. Nid oes terfyn amser ar gyfer gwneud y ceisiadau hyn. Unwaith eto, os ydych chi'n ystyried gwneud hyn, dylech ofyn yn gyntaf am gyngor cyfreithiwr sydd ag arbenigedd yn y maes hwn o'r gyfraith.

8.3 Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i gŵyn am ymddygiad personol crwner?

Os nad ydych chi'n fodlon ar ymddygiad personol crwner, gallwch ysgrifennu at y crwner dan sylw yn gyntaf (er nad oes gofyn i chi wneud hynny). Ymhlith yr enghreifftiau o gamymddwyn personol posibl mae bod yn anghwrtais; defnyddio iaith sarhaus, hiliol neu rywiaethol; neu oedi afresymol cyn cynnal cwest neu ymateb i ohebiaeth.

Os na all y crwner ddelio â'ch cwyn yn foddhaol, neu os nad ydych yn dymuno ysgrifennu at y crwner, mae gennych chi hawl i gwyno wrth y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol (JCIO). Ni chodir unrhyw dâl am gwyno i'r JCIO a gallwch wneud hynny ar-lein drwy wefan y JCIO yn http://judicialconduct.judiciary.gov.uk/making-a-complaint.htm. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cwyno am grwneriaid ar wefan y JCIO hefyd.

8.4 Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i gŵyn am safon y gwasanaeth a dderbyniwyd?

Os oes gennych chi gŵyn am y ffordd y gwnaeth crwner neu ei staff ddelio ag ymchwiliad (er enghraifft, os ydych chi'n teimlo nad yw'r safonau yn y Canllaw hwn yn cael eu bodloni), dylech ysgrifennu'n gyntaf at y crwner, ac anfon copi o'ch llythyr at yr awdurdod lleol sy'n ariannu gwasanaeth y crwner. Gall swyddfa'r crwner ddweud wrthych chi pa awdurdod lleol y dylech chi gysylltu ag ef.

Mae rhai swyddogion crwner yn swyddogion heddlu neu'n sifiliaid a gyflogir gan yr heddlu. Os ydych chi'n dymuno cwyno am swyddog crwner sy'n swyddog heddlu, efallai y bydd angen i chi gysylltu â'r heddlu lleol i ddechrau. Bydd swyddfa'r crwner yn gallu dweud wrthych chi pa heddlu y dylech chi gysylltu â nhw.

Gallwch hefyd gwyno wrth yr awdurdod lleol sy'n ariannu gwasanaeth y crwner rydych chi'n anhapus yn ei gylch. Os nad ydych chi'n fodlon ar ymateb yr awdurdod lleol, mae gennych chi hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ynglŷn â sut yr ymdriniodd yr awdurdod lleol â chi er na all yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol adolygu na newid penderfyniad crwner. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://www.lgo.org.uk/make-a-complaint

Ni chodir tâl am gwyno ynghylch safon y gwasanaeth gan swyddfa'r crwner.

Adran 9
Cael rhagor o wybodaeth a chymorth

Y Prif Bwyntiau

Mae gwybodaeth am brosesau'r crwner ar gael mewn llefydd eraill hefyd.

Mae llefydd eraill y gallwch droi atynt am gefnogaeth emosiynol ac ymarferol hefyd, nid dim ond gyda phroses y cwest ond er mwyn ymdopi â marwolaeth rhywun oedd yn agos atoch chi.

Mae'r adran hon yn nodi rhai mudiadau allai eich helpu chi. Gallwch hefyd ofyn i swyddfa'r crwner a all roi manylion mudiadau i chi a all eich helpu a'ch cefnogi.

Rhagor o wybodaeth gyffredinol am ymchwiliadau'r crwner

Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael gan GOV.UK yn https://www.gov.uk/after-a-death

Mae gan wefan yr Heddlu Metropolitanaidd wybodaeth am gysylltiad yr heddlu â marwolaeth sydyn neu annisgwyl https://www.met.police.uk/bereavement

Cymorth profedigaeth

Mae gwefan Marwolaeth a Phrofedigaeth y llywodraeth yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y dylech ei wneud pan fydd rhywun yn marw, crwneriaid a chwestau, y budd-daliadau sy'n daladwy ar ôl marwolaeth a hefyd am wasanaeth rheithgor mewn cwestau https://www.gov.uk/browse/births-deaths-marriages/death

Bydd swyddfa'r crwner yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am y prif fudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol, grwpiau cymorth a grwpiau ffydd sy'n helpu pobl mewn profedigaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i fathau penodol o ddigwyddiadau neu amgylchiadau, neu gyflyrau meddygol penodol. Mae gwefan y GIG hefyd yn rhestru manylion mudiadau cymorth: http://www.nhs.uk/livewell/bereavement/Pages/bereavement.aspx

Mae'r cyhoeddiad *Cymorth wrth Law* yn ganllaw i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad a marwolaethau sydyn, trawmatig eraill ac mae ar gael ar wefan y GIG yn
http://www.nhs.uk/Livewell/Suicide/Documents/Help%20is%20at%20Hand.pdf

Mudiadau eraill all roi cymorth a chyngor

Dyma restr o rai mudiadau eraill y gallech fod yn awyddus i gysylltu â nhw:

AAFDA (Eiriolaeth ar ôl Cam-drin Domestig Angheuol)

Mae AAFDA yn elusen genedlaethol sy'n arbenigo mewn eiriolaeth a chefnogaeth arbenigol am ddim dan arweiniad cymheiriaid ar ôl dynladdiad domestig. Mae AAFDA yn darparu eiriolaeth leyg am ddim er mwyn eich paratoi ar gyfer cwestau a'ch cynrychioli ynddynt.

https://aafda.org.uk/

Gwasanaeth Cyngor mewn Profedigaeth

Llinell gymorth am ddim a gwasanaeth gwybodaeth ar y we a ddarperir gan Co-op Legal Services. Mae'n darparu cyngor a gwybodaeth ymarferol am y materion a'r gweithdrefnau ar ôl marwolaeth.

www.bereavementadvice.org

Brake

Mae Brake yn darparu gwasanaethau cymorth i bobl sydd wedi cael profedigaeth neu wedi cael eu hanafu'n ddifrifol mewn damwain ffordd ac i'r teulu, y ffrindiau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

http://www.brake.org.uk/victim-support

Swyddfa'r Prif Grwner

Gwefan sy'n darparu gwybodaeth ac yn nodi cyfrifoldebau Prif Grwner Cymru a Lloegr. Mae hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u cyhoeddi yn cynnwys canllawiau ar faterion penodol.

https://www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/office-chief-coroner/

Llinell Gymorth Marwolaeth Plant

Llinell gymorth benodol sy'n cynnig cymorth i unrhyw un y mae marwolaeth plentyn o unrhyw oed wedi effeithio arno, waeth beth fo'r amgylchiadau a pha mor ddiweddar neu bell yn ôl y bu farw'r plentyn hwnnw.

http://childdeathhelpline.org.uk/

Cyngor ar Bopeth

Provide free and confidential advice and information whoever you are and whatever your problem.

https://www.citizensadvice.org.uk/

The Compassionate Friends

Mudiad elusennol sy'n cynnwys rhieni, brodyr a chwiorydd a neiniau a theidiau mewn profedigaeth sydd â'r nod o gefnogi a gofalu am deuluoedd eraill sydd hefyd mewn profedigaeth yn sgil colli plentyn neu blant o unrhyw oed ac o unrhyw achos.

https://www.tcf.org.uk/

Gwasanaeth Cymorth Llysoedd Crwneriaid (CCSS)

Mudiad gwirfoddol annibynnol y mae ei wirfoddolwyr hyfforddedig yn cynnig cefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol i deuluoedd mewn profedigaeth, tystion a phobl eraill sy'n mynychu cwest mewn llys crwner.

https://coronerscourtssupportservice.org.uk/

Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr

Dim ond aelodau'r Gymdeithas, sy'n ddeiliaid swyddi crwnerol yng Nghymru a Lloegr, sydd â mynediad llawn i'r safle. Fodd bynnag, mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y swyddfa a rôl crwneriaid.

https://www.coronersociety.org.uk/

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd crwneriaid eu gwefannau eu hunain sy'n rhestru cwestau, gyda gwybodaeth leol a dolenni defnyddiol.

Gofal mewn Galar Cruse

Mae'n darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion pan fydd rhywun yn marw.

https://www.cruse.org.uk/

Ymddiriedolaeth Good Grief

Mae'n bodoli i helpu pawb sy'n dioddef galar yn y DU. Mae'n dwyn ynghyd yr holl wasanaethau galar o bob cwr o'r wlad, i sicrhau bod pawb yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

https://www.thegoodgrieftrust.org/

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

Mae'n rheoleiddio sefydliadau sy'n symud, storio a defnyddio meinweoedd dynol ar gyfer gwaith ymchwil, triniaethau meddygol, post-mortem, addysg a hyfforddiant ac at ddibenion arddangos yn gyhoeddus. Mae hefyd yn cymeradwyo achosion o dderbyn organau a mêr esgyrn gan bobl fyw.

https://www.hta.gov.uk/

Hundredfamilies

Cymorth ymarferol ar gyfer y rheini sydd wedi colli rhywun sy'n annwyl iddynt o ganlyniad i ddynladdiad sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

http://www.hundredfamilies.org

INQUEST

Mae'n darparu arbenigedd ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth a'r gwaith o ymchwilio iddynt i bobl sydd mewn profedigaeth, cyfreithwyr, asiantaethau cyngor a chymorth, y cyfryngau a seneddwyr.

https://www.inquest.org.uk/

Cymdeithas y Cyfreithwyr - Find a Solicitor

Mae Find a Solicitor, sy'n cael ei redeg gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, yn wasanaeth am ddim i unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth ynghylch sefydliadau neu bobl sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr a gaiff eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA).

https://solicitors.lawsociety.org.uk/

Ymddiriedolaeth Lullaby

Mae'n codi ymwybyddiaeth o syndrom marwolaeth sydyn babanod (SIDS), yn rhoi cyngor arbenigol ar sut mae cael babanod i gysgu'n fwy diogel ac yn cynnig cefnogaeth emosiynol i deuluoedd sydd mewn profedigaeth.

https://www.lullabytrust.org.uk/

Rhoi Organau

Gall rhoi organau wella neu achub bywyd person sy'n derbyn yr organ sydd i'w thrawsblannu.

www.organdonation.nhs.uk

PAPYRUS

Mae'n rhoi cymorth a chyngor cyfrinachol i bobl ifanc sy'n brwydro gyda'u teimladau o hunanladdiad, ac unrhyw un sy'n poeni am berson ifanc drwy linell gymorth, HOPELINEUK.

https://papyrus-uk.org/

Rethink Mental Illness

Elusen iechyd meddwl genedlaethol sy'n darparu gwybodaeth a gwasanaethau i bawb y mae salwch meddwl yn effeithio arnynt.

https://www.rethink.org/

Y Samariaid

Mae'n darparu cefnogaeth emosiynol i unrhyw un sydd mewn trallod emosiynol, sy'n cael trafferth ymdopi, neu'n wynebu'r risg o hunanladdiad ledled y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

https://www.samaritans.org/

Sands

Sands yw'r elusen marw-enedigaethau a marwolaethau newyddanedigion. Mae'n gweithredu ledled y DU, yn cefnogi unrhyw un y mae marwolaeth babi'n effeithio arnynt, gan weithio i wella'r gofal y mae rhieni mewn profedigaeth yn ei gael, a hyrwyddo ymchwil i leihau nifer y babanod sy'n marw.

https://www.sands.org.uk/

SUDEP Action

Nod SUDEP Action yw codi ymwybyddiaeth o risgiau epilepsi a mynd i'r afael â marwolaethau oherwydd epilepsi yn cynnwys Marwolaethau Annisgwyl Sydyn oherwydd Epilepsi.

https://sudep.org/

SAMM (Cymorth ar ôl Llofruddiaeth a Dynladdiad)

Cefnogi teuluoedd sydd mewn profedigaeth oherwydd llofruddiaeth a dynladdiad.

https://www.samm.org.uk/index.php

Tell Us Once

Un o wasanaethau am ddim y llywodraeth sy'n gadael i chi hysbysu'r rhan fwyaf o sefydliadau'r llywodraeth ar yr un pryd.

https://www.gov.uk/after-a-death/organisations-you-need-to-contact-and-tell-us-once

Y Bartneriaeth Cymorth ar ôl Hunanladdiad

Rhwydwaith o sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd hunanladdiad neu mae hunanladdiad wedi effeithio arnynt.

http://supportaftersuicide.org.uk/

Rhoi Meinweoedd

Rhoi Meinweoedd Y mudiad dielw mwyaf sy'n cyflenwi meinweoedd dynol i'r GIG i'w trawsblannu. Mae'n casglu meinwe a roddwyd, fel croen, esgyrn a llygaid gan roddwyr byw a marw i achub bywydau a gwella bywydau'r sawl sy'n dioddef o salwch neu anaf yn ddramatig.

www.nhsbt.nhs.uk/tissuedonation

Winston's Wish

Mae'n cefnogi plant mewn profedigaeth ac yn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer profedigaeth plant ledled y DU, yn cynnwys help therapiwtig dwys i unigolion, grwpiau a lleoliadau preswyl.

https://www.winstonswish.org/

Atodiad A

Protocol: Egwyddorion sy'n llywio dull y Llywodraeth o weithredu pan fydd ganddi statws person â buddiant mewn cwest.

Proses ymchwiliol i ganfod ffeithiau yw cwest, sydd wedi'i dylunio i ganfod pwy, sut, pryd a lle wnaeth yr unigolyn farw. Mae teulu ac anwyliaid yn aml yn mynychu cwestau a gallant gyfrannu i'r broses ymchwiliol fel unigolion sydd â diddordeb. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i helpu i wneud y broses hon yn fwy sensitif i anghenion y sawl sydd mewn profedigaeth. Mae'r Protocol hwn yn berthnasol pan fydd gan adran o'r Llywodraeth statws unigolyn sydd â diddordeb mewn cwest. Bydd y protocol yn llywio ymddygiad yr adran honno wrth gydnabod yr angen i'r sawl sydd mewn profedigaeth chwarae rhan ganolog trwy gydol y broses cwest.

Datblygwyd y protocol hwn mewn ymateb i adroddiad Y Fonesig Elish Angiolini ar ei hadolygiad o farwolaethau a digwyddiadau difrifol yn nalfeydd yr heddlu; adroddiad Yr Esgob James Jones ar ei adolygiad o brofiadau teuluoedd dioddefwyr Hillsborough ac Adroddiad Terfynol y Llywodraeth ar yr adolygiad o gymorth cyfreithiol mewn cwestau.

Nid yw egwyddorion y protocol hwn yn effeithio ar, nac yn disodli darpariaethau Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Pan fydd gan adran o'r Llywodraeth statws unigolyn sydd â diddordeb mewn cwest, bydd y Llywodraeth a'r cyfreithwyr mae'n eu cyfarwyddo mewn cwestau yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

1. Parhau i ymrwymo i gefnogi'r dull ymchwiliol a chynorthwyo'r crwner i ganfod ffeithiau am yr hyn a ddigwyddodd a dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

2. Bod yn agored ac yn onest yn y cwest, yn cynnwys cefnogi'r broses o ddatgelu i'r crwner yr holl wybodaeth berthnasol a'r wybodaeth y gellir ei datgelu.

3. 3. Cyfathrebu â'r sawl sydd mewn profedigaeth mewn ffordd sensitif ac empathetig sy'n cydnabod ac yn parchu eu colled.

4. Cadw mewn cof y dylai'r sawl sydd mewn profedigaeth:
   (1) fod yn ganolog i'r broses cwest;
   (2) teimlo'n hyderus y bydd y cwest yn canfod y ffeithiau am yr hyn a ddigwyddodd;
   (3) teimlo eu bod yn chwarae rhan ganolog trwy gydol y broses a bod eu llais yn cael ei glywed.

5. Herio tystiolaeth unigolion eraill sydd â diddordeb, neu dystion, mewn modd sensitif, lle bo angen gwneud hynny.

6. Ystyried cydnabyddiaeth ffurfiol ar gyfer y sawl sydd mewn profedigaeth i gydnabod achos pan fo marwolaeth eu hanwylyd wedi digwydd pan oedd dan ofal y wladwriaeth.

7. Ystyried nifer y cyfreithwyr sy'n cael eu cyfarwyddo, gan gadw mewn cof yr ymrwymiad i gefnogi dull ymchwiliol.

Mae'r protocol hwn yn berthnasol i holl adrannau'r Llywodraeth a gynrychiolir mewn cwestau, ac mae wedi'i ddylunio i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i deuluoedd ac anwyliaid. Rydym yn ei ystyried yn fodel ymddygiad y dylai gael ei fabwysiadu gan bobl eraill sy'n unigolion sydd â diddordeb mewn cwestau neu sy'n anfon cynrychiolaeth i gwestau.

Amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder